Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	18 / 05 / 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl	Penodi Aelodau Lleyg y Pwyllgor Safonau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn trafod parhad penodiad dau Aelod lleyg (annibynnol).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae penodiadau i'r Pwyllgor Safonau yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Ailbenodi Anne Mellor yn aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am ail dymor i ddod i ben ar 18 Mai 2025.

3.2. Ailbenodi Julia Hughes yn aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am ail dymor i ddod i ben ar 18 Mai 2025

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau 2001, fel y'u diwygiwyd, (y Rheoliadau) yn llywodraethu aelodaeth a thrafodion y Pwyllgor Safonau. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau fod yn wleidyddol gytbwys. Mae'n rhaid i Bwyllgor Safonau gael rhwng pump a naw aelod gan gynnwys aelodau lleyg annibynnol, Cynghorwyr Sir a chynrychiolaeth o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Mae'n rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelodau lleyg annibynnol o hyd ac mae'n rhaid i'r

mwyafrif o'r rhai sy'n bresennol fod yn aelodau lleyg annibynnol er mwyn i'r cyfarfod fod â chworwm.

4.2. Mae saith yn aelod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor hwn, sy'n cynnwys y canlynol: dau Gynghorydd Sir; un aelod o Gyngor Cymuned; a phedwar aelod lleyg annibynnol.

4.3. Dim ond dau dymor swydd y gall aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor Safonau wasanaethu, o dan y rheoliadau, felly dyma dymor olaf y penodwyr arfaethedig, pe bai'n cael ei ailbenodi.

4.4. Cafodd yr aelodau lleyg a gyflwynwyd i'w hailbenodi, Anne Mellor, a Julia Hughes, eu recriwtio trwy hysbyseb gyhoeddus a'u dewis o blith nifer o ymgeiswyr gan Banel Penodiadau'r Cyngor yn dilyn proses gyfweld.

4.5. Mae'r ddau aelod lleyg annibynnol a gyflwynwyd i'w hailbenodi wedi bod yn aelodau diwyd a chydwybodol o'r pwyllgor ers eu penodi yn 2015 ac maent bellach yn brofiadol yng ngwaith y Pwyllgor. Am y rheswm hwn y cynigir eu penodi am ail dymor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae Pwyllgor Safonau sy'n gweithredu'n llawn ac yn gynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i danategu ymarfer y Cyngor o'i swyddogaethau democrataidd.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae gan aelodau annibynnol hawl o dan y gyfraith i gael ffi ddyddiol ac i gael costau teithio yn ôl fel y nodir yn adroddiad Panel Taliadau Annibynnol Cymru 'bob blwyddyn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad effaith llesiant.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu'r adroddiad hwn yn destun ystyriaeth gan Craffu. Mae'r ddau aelod annibynnol dan sylw wedi nodi y byddent yn barod i wasanaethu ail dymor pe bai'r Cyngor yn eu hailbenodi.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad yn fach a byddant wedi'u cynnwys yn yr adnoddau presennol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'n amod yng Nghyfansoddiad y Cyngor bod angen pedwar aelod lleyg. Y risg o beidio â phenodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau yw y gall llai o aelodau gynyddu'r tebygolrwydd na fydd gan y Pwyllgor gworwm

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd.